# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 23AIN MEDI, 2021**

Lleoliad

**Zoom**

*** mynediad i'r cyhoedd***

Cysylltwch i gael mynediad

Pwynt Cyswllt

**Natalie Lloyd Jones**

**NatalieLloydJones@Gwynedd.Llyw.Cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 15 Medi 2021)

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Gwynfor Owen
Aled Wyn Jones
Gethin Glyn Williams
Dafydd Owen
Elwyn Edwards
Linda Morgan
Simon Glyn
Annwen Hughes
Edgar Wyn Owen
Berwyn Parry Jones

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Mike Stevens
Angela Russell
Kevin Morris Jones
Elfed Powell Roberts

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Robert Glyn Daniels
Owain Williams

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd
Stephen W. Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

# R H A G L E N


## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION — 4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13eg o Orffennaf, 2021 fel rhai cywir.

## 5. NEWID HINSAWDD — 10 - 12

Aelod Cabinet: Cyng. Dyfrig Siencyn

Diweddariad ar yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud ar hyn o bryd i ymateb i'r heriau newid hinsawdd a chamau eraill sydd yn ymarferol i'r Cyngor weithredu arnynt i'r dyfodol.

## 6. NEWID HINSAWDD - STRATEGAETH LLIFOGYDD LLEOL — 13 - 15

Aelod Cabinet: Cyng. Catrin Wager

Diweddariad ar: Gweithredu ar Risgiau Llifogydd Mewndirol a Risgiau Llifogydd Arfordirol

## 7. NEWID HINSAWDD - ASEDAU ATAL LLIFOGYDD GWYNEDD — 16 - 18

Aelod Cabinet: Cyng. Catrin Wager

Diweddariad ar: Trefniadau monitro cyflwr asedau Gwynedd er mwyn lleihau risgiau.

# Pwyllgor Craffu Cymunedau
# 13 Gorffennaf 2021

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:** Stephen Churchman, Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Aled Wyn Jones, Berwyn Parry Jones, Elwyn Jones, Kevin M Jones, Linda Morgan, Edgar Wyn Owen, Elfed Roberts, Angela Russell, Mike Stevens, Gethin Williams ac Owain Williams.

**Swyddogion yn bresennol:**
Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Iaith ac Democratiaeth), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Eirian Roberts, Sioned Mai Jones a Natalie Jones (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

Yn bresennol ar gyfer eitem 7:
Y Cynghorydd Catrin Wager (Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).

Yn bresennol ar gyfer eitem 8:
Y Cynghorydd Gareth Griffith (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd).

Yn bresennol ar gyfer eitem 9:
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor) a Nonn Gwenllian Hughes (Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn (BGC)).

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**Etholwyd Y Cynghorydd Berwyn P Jones yn Gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y cyfnod 2021/22.**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**Etholwyd Y Cynghorydd Glyn Daniels yn Is-gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y cyfnod 2021/22**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorwyr Simon Glyn a Dafydd Owen.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant personol gan Y Cynghorwyr Elwyn Jones ac Anwen Hughes, yn eitem 7 ar y rhaglen, gan eu bod yn glercod i Gynghorau Cymuned.

Nid oedd yr aelodau o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu, ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 5. MATERION BRYS

Ni fu unrhyw faterion brys i'w nodi.

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 22ain Ebrill 2021, fel rhai cywir.

## 7. BINIAU HALEN

Cafwyd rhagair gan y Cynghorydd Catrin Wager yr Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Bwrdeistrefol yn atgoffa'r Pwyllgor o'r toriadau sydd wedi bod dros y blynyddoedd ag arweiniodd at Gynghorau cymuned yn cymryd cyfrifoldeb dros y biniau halen.

Eglurwyd bod gwaith wedi ei gomisiynu i edrych ar y ddarpariaeth gan fod ymdeimlad ei fod yn annheg ar gynghorau cymuned fwy gwledig neu ar dirwedd wahanol sydd angen fwy o ddarpariaeth.

Ychwanegodd y Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol bod yr adroddiad yn amlygu trefniadau graeanu sydd eisoes yn bodoli a threfniadau ynghylch ffyrdd prif flaenoriaeth ac ail flaenoriaeth.

Yn ystod y drafodaeth, cafwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:-

- Diolchwyd am yr adroddiad a llongyfarchwyd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ar eu hetholiad.
- Gofynnwyd a fydd modd ystyried cydweithio gydag amaethwyr a chontractwyr lleol yn yr ardal fel bod ganddynt gyflenwad i'w ddefnyddio ac o ganlyniad ni fydd angen biniau halen o amgylch yr ardal.
- Holwyd os oes gan gynghorau cymuned a thref yswiriant ar gyfer damweiniau wrth i bobl nôl halen ynteu ydi hyn yn gyfrifoldeb ar yr Awdurdod.
- Nodwyd mewn rhai ardaloedd bod rhai ffermwyr yn cydweithio efo'r Cyngor ers blynyddoedd a holwyd a fyddai hyn yn parhau yn enwedig mewn ardaloedd sydd ag lonydd serth o gymharu â threfi mwy gwastad.
- Awgrymwyd y buasai'n tecach i'r gost cael ei rhannu'n gyfartal rhwng cynghorau tref a chymuned fel bod llai o bwysau ar bentrefi llai sydd angen ei ddefnyddio fwy.
- Atgoffwyd un aelod nad oes gaeaf caled wedi bod ers i'r ddyletswydd hwn ddisgyn ar gynghorau cymuned a thref a gofynnwyd beth fyddai'r gost o'r holl ddamweiniau allai ddigwydd petai ddim cyflenwad. Bod angen ail ystyried y trefniadau, dylid rhoi ystyriaeth i ail-sefydlu'r gwasanaeth fel yr oedd gyda'r gwariant yn cael ei ariannu drwy Dreth y Cyngor.
- Cwestiynwyd y targed arbed arian o £100,000 gan nad oedd wedi ei wireddu a holwyd os oes opsiynau gwell i osgoi trafferth i gynghorau cymuned a thref.
- Holodd aelod faint o gynghorau cymuned a thref oedd wedi ymrwymo ac os yw'r Cyngor yn parhau i lenwi biniau mewn cymunedau sydd heb ymrwymo.

Mewn ymateb i'r sylwadau nododd y Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol y canlynol:-

- Cytunwyd, os fyddai'r Cyngor yn edrych ar y ddarpariaeth, bod angen cyfle i gydweithio a chadw'r budd yn lleol drwy roi cytundebau i gontractwyr neu ffermwyr lleol.
- O ran yswiriant, nodwyd bod biniau halen yna i'w ddefnyddio ar sail risg yr unigolyn ac felly does dim oblygiad dilynol yn erbyn y cyngor cymuned neu dref.

- Nodwyd os fydd perygl o risg, bod cyfrifoldeb yn parhau ar yr Awdurdod Lleol i sicrhau bod y ffyrdd yn ddiogel.
- Cytunwyd bod angen cysoni'r dull gyfathrebu er mwyn trefnu ail lenwi biniau â halen.
- Nodwyd bod yr adran am edrych ar ffyrdd blaenoriaeth/ ail flaenoriaeth er mwyn sicrhau diogelwch y defnyddwyr.
- Mewn perthynas â'r arbediad arian, eglurodd y Pennaeth ei fod yn awyddus i glywed barn y pwyllgor ar y camau nesaf gyda'r drefn biniau halen.
- Cyfeiriwyd at yr atodiad sy'n nodi bod 46 o gynghorau, sef dros hanner y cynghorau cymuned a thref, wedi ymrwymo i'r cynllun presennol.

**PENDERFYNWYD**

a) **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd**
b) **Bod adroddiad pellach yn dod gerbron y pwyllgor i'w diweddaru ar y sefyllfa.**

**8. TRAFNIDIAETH – GWERTH CYMDEITHASOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth yr Adran Amgylchedd a chychwynnwyd drwy atgoffa'r Pwyllgor o brif faterion ynghylch cludiant cyhoeddus sef y gost, gorddibyniaeth ar rhai cwmnïau penodol, a gorddibyniaeth pobl ar fysiau. Pwysleisiwyd bod y rhwydwaith bysiau wedi datblygu yn ddiweddar ac ategwyd bod anghenion trigolion wedi newid o ganlyniad i newid arferion dros y cyfnod pandemig.

Trafodwyd y prif faterion yr ystyriwyd wrth greu'r adolygiad strategol dan sylw, gan gynnwys y canlynol:

- Adnabod yr angen sydd ym mhob cymuned gan fod rhai yn hollol ddibynnol ar deithiau penodol er mwyn cyfarch eu hanghenion sylfaenol.
- Y gwaith ymgysylltu sydd wedi digwydd yn lleol er mwyn defnyddio'r ymatebion i adnabod yr angen.
- Adnabod beth yw'r gwerth cymdeithasol buddsoddi mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.
- Atgoffwyd bod sefyllfa Gwynedd fel ardal fwy gwledig yn creu fwy o heriau ynghylch anghenion trafnidiaeth.
- Trafodwyd yr her o ysgogi defnyddwyr i deithio ar fysiau unwaith eto ar ôl cyfnod o ddefnydd isel.

Yn ystod y drafodaeth, cafwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Diolchwyd am y wybodaeth ddefnyddiol o fewn yr adroddiad a nodwyd bod colli gwasanaeth mewn rhai cymunedau wedi bod yn ergyd gan fod llawer o bobl eu hangen ar gyfer ymweld â'r deintydd neu feddyg.
- Cynigwyd bod angen edrych ar amserlen y bysiau er enghraifft cynnig gwasanaeth cynharach er mwyn defnyddio at ddibenion gwaith neu addysg.
- Gofynnwyd am eglurder o ran y wybodaeth ar dudalen 33 o'r rhaglen am Wasanaeth Rhif 14 yn adroddiad y Brifysgol.
- Holwyd a oes trafodaethau ynghylch y bysiau wennol gan eu bod yn darfod yn gynnar, a byddai teithiau hwyrach yn fantais i bentrefi a threfi elwa o ymwelwyr.
- Ategwyd y byddai bysiau hwyrach yn galluogi pobl parcio yng Nghaernarfon a theithio i Eryri yn hytrach na pharcio ger y mynyddoedd.
- Holwyd a ydi'r amserlen yn adlewyrchu angen presennol y bobl leol gan fod bysiau yn

pasio’n hanner gwag.
- Ategwyd bod angen ysgogi hen ddefnyddwyr i ddychwelyd yn ôl i ddefnyddio’r bysiau gan fod gwerth cymdeithasol uchel i bobl fynd i siopa a theithiau tebyg.

Mewn ymateb i sylwadau’r aelodau, nododd y Pennaeth Adran Amgylchedd y canlynol:-

- Bod yr adran yn ceisio pwyso ar Lywodraeth Cymru i adolygu eu hamserlenni fodd bynnag maent yn awyddus bod yna daith eithaf sydyn drwy Gymru.
- Nododd bod awgrym i’r Llywodraeth Cymru bod bob yn ail daith y gwasanaeth T2 yn mynd i mewn i gymunedau a’r gweddill yn fwy uniongyrchol drwy Gymru.
- Eglurodd bod adran newid hinsawdd wedi ei sefydlu o fewn y Llywodraeth a’u bod yn canolbwyntio ar gludiant cyhoeddus a threnau bysiau er mwyn lleihau ôl troed carbon.
- Byddai’n cysylltu gyda’r aelod o ran y wybodaeth am Wasanaeth Rhif 14.
- Mewn perthynas â’r sefyllfa parcio ar gyfer ymweld ag Eryri, nododd bod gwaith yn digwydd ar y cyd efo Parc Cenedlaethol er mwyn edrych ar ddatrysiadau i leihau’r defnydd o drafnidiaeth bersonol.
- Cytunwyd bod angen diwygio’r amserlen fel bod teithiau hwyrach a chynt yn digwydd.
- Nododd mai sylfaen y gwaith sydd gerbron y pwyllgor heddiw yw archwilio a yw’r gwasanaeth presennol yn addas i bwrpas ac yn cyfarch anghenion y defnyddwyr.
- Ategodd bod angen cynllunio ar gyfer yr holl ddefnyddwyr er bod anghenion pawb yn wahanol.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi’r sylwadau a dderbyniwyd.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arweinydd y Cyngor gan nodi bod gweithgareddau’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi eu heffeithio’n fawr gan yr haint Covid, ond wedi ail gydio erbyn hyn. Trosglwyddwyd i’r Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn a thywyswyd y Pwyllgor drwy'r adroddiad gan nodi’r canlynol;

- Bod gan y Bwrdd 4 is-grŵp sy’n cyflawni eu gwaith ar rolau amrywiol, a cynigwyd diweddariad ar rhain.
- Mewn perthynas â’r is-grŵp Newid Hinsawdd nodwyd bod gweithdai yn cael eu cynnal ynghyd ag ymgysylltu o fewn y gymuned.
- Nodwyd bod yr is-grŵp Cartrefi ar gyfer pobl leol wedi dod i ben gan fod adrannau eraill wedi cymryd yr awenau a bod gwaith y grŵp bellach wedi ei chyflawni.
- Soniwyd am y ffrydiau gwaith o dan yr is-grŵp Iechyd Meddwl Oedolion a Phlant a bod y Bwrdd yn cydweithio efo’r arweinyddion.
- Mewn perthynas â’r is-grŵp sy’n ymwneud a’r Iaith Gymraeg, nodwyd bod arweinydd erbyn hyn i’r grŵp yma ac felly bod gwaith wedi ail gychwyn.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:-

- Holwyd pam bod yr is grŵp sy'n ymwneud a thai i bobl leol wedi dod i ben.
- Cynigwyd bod angen ymgysylltu gyda thrigolion ynghylch newid hinsawdd ag sut i ymdopi a heriau megis llifogydd.
- Ategwyd at gwestiwn ynghylch tai i bobl leol a nodwyd bod pryder efo diffyg tai mewn ardaloedd mwy deheuol yn y Sir, er enghraifft, Tywyn sy'n wynebu argyfwng tai ac sydd efo cymuned sy'n tyfu.
- Bod swyddi gan Llywodraeth Cymru yn nodi'r angen am lefel cwrteisi o ran sgiliau Iaith Gymraeg. Angen i'r defnydd o Gymraeg fod yn naturiol drwy Gymru.
- Bod angen cwota o ran ail-gartrefi gyda cholli stoc tai a diffyg mewn tai rhent. Holwyd a oedd cynllun i blannu fwy o goed o fewn Gwynedd fel rhan o'r agenda newid hinsawdd.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nodwyd y canlynol:-

- Bod angen osgoi dyblygu ar bob cyfrif ac felly dyma pam y penderfynwyd bod y gwaith ar dai i bobl leol wedi dod i ben. Ategodd arweinydd y Cyngor bod gwaith aruthrol wedi ei wneud o safbwynt tai.
- Nodwyd bod llawer i ddysgu gan drigolion a bod bwriad i fynd allan i gynnal deialog o fewn cymunedau i weld beth sy'n bwysig iddynt. O safbwynt newid hinsawdd, nodwyd bod hyn yn bwnc trafod i'r dyfodol gyda thrigolion.
- Bod gwaith Is-Grŵp yr Iaith Gymraeg o ran sicrhau bod y cyhoedd yn derbyn gwasanaeth drwy'r Gymraeg nid yn unig yn berthnasol i dderbynfeydd ond unrhyw gyswllt gyda'r cyhoedd.
- Bod stoc tai annedd yn gostwng, dros y pedair blynedd diwethaf roedd oddeutu 600 o dai wedi eu hadeiladu ac oddeutu 800 wedi eu colli o'r stoc dai. Cynnydd anferthol yn y nifer yn ddigartref gydag argyfwng o ran lletya, angen rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r sefyllfa.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

## 10. RHAGLEN WAITH DDRAFFT CRAFFU 2021/22

Cyflwynwyd rhaglen waith ddrafft craffu 2021/22 i'w mabwysiadu yn dilyn y gweithdy a gynhaliwyd ar 4 Mai 2021.

Tynnwyd sylw bod un addasiad i'r rhaglen waith ers y gweithdy. Eglurwyd oherwydd amgylchiadau tu hwnt i reolaeth, bod yr eitem 'Diweddariad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol' wedi ei symud o gyfarfod 4 Tachwedd 2021 i gyfarfod 13 Ionawr 2022.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn y rhaglen waith.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 12:50yp.

Cadeirydd

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 23 Medi 2021 |
| **TEITL** | Newid Hinsawdd |
| **AWDUR** | Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Amgylchedd |
| **AELOD CABINET** | Y Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd |
| **PWRPAS** | Diweddariad ar yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud ar hyn o bryd i ymateb i'r heriau newid hinsawdd a chamau eraill sydd yn ymarferol i'r Cyngor weithredu arnynt i'r dyfodol. |

**1. CEFNDIR**

1.1 Rydym oll yn ymwybodol bod newid yn yr hinsawdd yn cael effeithiau pellgyrhaeddol ar yr amgylchedd o'n cwmpas.

1.2 Cyhoeddodd y Cyngor argyfwng hinsawdd yn eu cyfarfod ar 7fed o Fawrth 2019, gan ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau ein cyfraniad at y materion hynny sy'n achosi newid hinsawdd a diogelu'n cymunedau o'i effeithiau.

1.3 Mewn adroddiad i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2019, diweddarwyd yr Aelodau bod y Cabinet wedi sefydlu tasglu i ystyried beth ymhellach sydd angen ei wneud er mwyn cyflawni hynny ac mai'r bwriad oedd i sefydlu Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd y Cyngor cyn diwedd y flwyddyn ariannol 19/20.

**2. DIWEDDARIAD**

2.1 Yn anffodus, bu i argyfwng Covid-19 dorri ar draws y gwaith a oedd yn mynd rhagddo i lunio Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd. Er hyn mae'n bwysig nodi bod y gwaith perthnasol rydym yn ei wneud fel cyngor wedi parhau er gwaetha'r argyfwng.

2.2 Wrth i adrannau fynd ati i ail afael yn y gwaith er mwyn ystyried beth y gellid ei ymgorffori mewn unrhyw gynllun o'r fath, fe adnabuwyd yr angen am gydlynydd ar gyfer y prosiect ac fe wnaed argymhelliad i ofyn i'r Cabinet gymeradwyo cyllid unwaith ac am byth er mwyn ariannu rheolwr rhaglen am gyfnod o 12 mis. Cymeradwyodd y Cabinet y cyllid hwn yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2021. Yn yr un cyfarfod, penderfynwyd sefydlu Bwrdd Newid Hinsawdd i lywio'r gwaith hefyd.

2.3 Cychwynnodd Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd yn y rôl gydlynol hon yng Ngorffennaf 2021. Ers hynny, mae'r rheolwr wedi ailymgynnull y Bwrdd Newid Hinsawdd ac wedi dechrau ar y gwaith o fapio holl weithgareddau perthnasol y cyngor er mwyn tynnu'r cynllun gweithredu at ei gilydd ac adnabod unrhyw fylchau sydd angen eu cyfarch.

2.4 Bwriedir i gynllun drafft fod mewn lle yn y misoedd nesaf, a'r bwriad yw iddo fod yn sail i weithdy aelodau a fydd wedyn yn arwain at fabwysiadu Cynllun Gweithredu i'r dyfodol.

2.5 Dylid nodi mai'r bwriad ar hyn o bryd yw i lunio Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn golygu y bydd y cynllun yn cyfarch effeithiau'r cyngor fel corff ar newid hinsawdd, yn ogystal ag unrhyw ddyletswyddau uniongyrchol a statudol sydd gennym.

2.6 Pwysleisir nad yw'r oediad yn y gwaith o ddod â'r cynllun gweithredu ynghyd yn golygu bod ein gwaith fel cyngor i ymateb i heriau newid hinsawdd wedi'i oedi. Mae'r cyngor wedi bod yn cyflawni ei waith fel yr arfer, a dyma rai enghreifftiau o'r gwaith hwnnw:

- Edrych ar sut mae lleihau allyriadau carbon y cyngor ymhellach gan gynnwys gweithio ar Gynllun Rheoli Carbon newydd ar gyfer ein adeiladau, gweithio ar Strategaeth Fflyd newydd (gan weld canran uchel o Fflyd y Cyngor yn trosi i ddefnyddio tanwydd gwyrdd) a chwblhau'r prosiect i newid lampau stryd i LED.
- Datblygu'r maes gwastraff ac ailgylchu ymhellach fel bod modd lleihau'r hyn gaiff ei anfon i'w drin, gyda phwyslais ar yr economi gylchol, cyfleon i ailgylchu ar y stryd a chodi cyfranogiad y gwasanaeth casglu bwyd – oll gyda'r nod o ddod yn sir ddi-wastraff erbyn 2050.
- Edrych ar gyfleon i ailddefnyddio deunyddiau ffyrdd wrth drwsio ein ffyrdd er mwyn lleihau swm y deunydd newydd a brynir a faint a waredir i'w dirlenwi.
- Lleihau ac addasu ein harferion torri gwellt mewn rhai mannau er mwyn hybu tyfiant a bioamrywiaeth. Rydym hefyd yn edrych ar ffyrdd i leihau ein defnydd o chwynladdwyr cemegol lle'n bosib.
- Ymateb i ddigwyddiadau o lifogydd mewndirol drwy weithredu fel y Brif Awdurdod Llifogydd Lleol. Defnyddir yr wybodaeth o ddigwyddiadau llifogydd mewn tai (ar y cyd â gwybodaeth a gesglir gan bartneriaid perthnasol megis Cyfoeth Naturiol Cymru) i sefydlu dealltwriaeth o'r mannau sydd wrth risg ac rydym wedi bod yn symud tuag at model fwy dalgylchol o ddelio â llifogydd er mwyn sicrhau nad yw delio â'r broblem mewn un man yn creu sgil effeithiau negyddol ymhellach lawr y dalgylch.
- Ymateb i ddigwyddiadau o lifogydd arfordirol a chydweithio yn rhanbarthol i weithredu'r Cynllun Rheoli Traethlin. Mae'r gwaith yma'n cynnwys cydweithio a chefnogi cymunedau lle bo angen. Rydym hefyd wrthi'n gweithio ar Strategaeth Llifogydd Lleol.
- Gweithredu ein Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau ar fioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ar geisiadau cynllunio.
- Cyfrannu at y waith Partneriaeth Natur Gwynedd i ddatblygu Cynllun Adfer Natur Gwynedd a phrosiectau cymunedol sy'n gwella'r amgylchedd a bioamrywiaeth yn lleol.
- Gweithio ar strategaeth gweithredu Clwy'r Onnen i ystyried effaith y clwyf ar ein cynefinoedd a'n hamgylchedd ac ystyried modd o gadw'r carbon wedi'i storio yn y coed.
- Cydweithio'n drawsadrannol er mwyn ystyried sut ellir defnyddio natur i gefnogi gwaith mewn meysydd eraill megis llifogydd neu gwastraff.

**3. CAMAU ERAILL SYDD YN YMARFEROL I'R CYNGOR EDRYCH ARNYNT I'R DYFODOL**

3.1 Fel rhan o lunio'r Cynllun Gweithredu, byddwn yn edrych ar sut y gallem leihau allyriadau carbon ymhellach gan ystyried y targed sydd wedi'i osod gan Llywodraeth Cymru i'r sector gyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

3.2 Mae Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth yn ofyniad statudol ar y Cyngor a mae angen iddo gael mwy o flaenoriaeth gan ei fod yn allweddol i'r ymateb newid hinsawdd. Byddwn yn edrych ar sut allwn ni wella ar y modd mae'r cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd bioamrywiaeth ac unrhyw gamau pellach fedrwn ni fel cyngor ei gymryd i gynyddu'r dylanwad positif a gawn ar fioamrywiaeth y sir.

3.3 Yn ogystal, byddwn yn ymgorffori’r Strategaeth Llifogydd Lleol a fydd yn cael ei baratoi gan Adran YGC ac yn ystyried sut orau i gyfathrebu ac ymgysylltu gyda’n cymunedau fel rhan o’r gwaith hwnnw.

3.4 Byddwn hefyd yn ymgorffori’r Strategaeth Fflyd, y Strategaeth Gwastraff newydd ac yn ystyried pa gamau pellach allwn ni eu cynnig i hyrwyddo’r economi gylchol a hybu ailddefnyddio.

3.5 Yn dilyn rhoi cynllun mewn lle ar gyfer y cyngor ei hun, bydd yn briodol i ni edrych ar sut mae modd lleihau effeithiau Gwynedd fel sir ar yr amgylchedd ac ar newid hinsawdd drwy ystyried sut allwn ni addysgu, cefnogi a dylanwadu’n cymunedau i chwarae rôl yn y dasg hollbwysig hon.

3.6 Er bod cynnwys yr adroddiad uchod yn rhoi syniad o’r math o feysydd y byddem yn edrych arnynt, nid oes modd dweud yn bendant ar hyn o bryd pa newidiadau fydd y cyngor yn eu rhoi ar waith. Mae llawer o waith dal i’w wneud er mwyn deall yn lle gallem gael yr ardrawiad mwyaf a lle felly i flaenoriaethu ein buddsoddiad. Fodd bynnag, gallem ddiweddaru’r pwyllgor unwaith eto wrth i’r gwaith ddatblygu.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **23 Medi 2021** |
| **TEITL** | **Newid Hinsawdd - Strategaeth Llifogydd Lleol** |
| **AWDUR** | **Emlyn Jones** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cyng. Catrin Wager** |
| **PWRPAS** | **Diweddariad ar:**<br>**Gweithredu ar Risgiau Llifogydd Mewndirol a Risgiau Llifogydd Arfordirol** |

## 1. CEFNDIR

Rydym oll yn ymwybodol bod newid yn yr hinsawdd yn cael effaith ar risgiau llifogydd mewndirol ac arfordirol.

## 2. DIWEDDARIAD

Mae angen i ni fel Cyngor lunio Strategaeth Llifogydd Lleol erbyn Hydref 2022. Mae'r gwaith yma wedi ei ddyrannu fel risgiau llifogydd mewndirol ac arfordirol . Mae'r gwaith yma yn rhan o gynllun newid hinsawdd y Cyngor.

### 2.1 Gweithredu ar Risgiau Llifogydd Mewndirol

Mae'r adran yn llunio cynlluniau i leihau risg ac effaith llifogydd ar drigolion Gwynedd drwy ddilyn y drefn fel sydd wedi amlinellu isod.

- Mae Gwynedd wedi ei rannu yn 15 dalgylch afonol.

- Mae posib blaenoriaethu'r rhain yn ôl risg damcaniaethol o wybodaeth mapiau Cyfoeth Naturiol Cymru, gan hefyd gymryd i ystyriaeth yr wybodaeth mae'r adran yn ei gasglu ar ôl pob digwyddiad o lifogydd mewn tai yng Ngwynedd. (Mae casglu'r wybodaeth yma yn rôl statudol o dan yr Adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 - fe'i gelwir yn adroddiadau Adran 19).

- Ar sail y blaenoriaethau hyn felly, mae'r adran yn llunio cynlluniau dalgylchol, sy'n aml yn cynnwys sawl cynllun bach a mawr ar hyd a lled y dalgylch. Mae hyn yn newid sylfaenol i'r ffordd roedd cynlluniau llifogydd yn cael eu llunio yn y gorffennol gyda phrosiectau llawer mwy lleol yn cael eu datblygu. Yn aml iawn, byddai cynlluniau o'r fath yn pasio problemau a risg ymhellach i lawr y dalgylch ac yn cyfrannu at broblemau mewn lleoliadau eraill a'r nod yw lleihau hyn drwy ymgorffori'r cynlluniau yma mewn i rai dalgylchol ehangach sy'n fwy cynaliadwy.

- Yn ychwanegol, mae'r adran yn ceisio manteisio ar gyfleoedd i ychwanegu at werth y cynlluniau hyn drwy ymgorffori elfennau ychwanegol (er nad yw'r elfennau hyn yn lleihau risgiau llifogydd yn uniongyrchol). Gall enghreifftiau o elfennau o'r math gynnwys megis llwybrau cymunedol, cynyddu bioamrywiaeth neu ail wyrddio ardaloedd. Byddwn yn gwneud hyn drwy gydweithio'n drawsadrannol a chynnwys cynrychiolaeth o'r cymunedau i fod yn rhan o'r prosiectau o'r dechrau.

- Caiff y cynlluniau dalgylchol hyn eu datblygu wedyn fel rhan o raglen waith yr Adran ac yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

**2.2 Gweithredu ar Risgiau Llifogydd Arfordirol**

Mae gan Wynedd yr arfordir mwyaf yng Nghymru ac oherwydd natur ein tirwedd mae canran uchel o'n cymunedau, a'r isadeiledd sydd yn eu gwasanaethu nhw, ar yr arfordir. Yn naturiol, mae risgiau yn codi yn sgil codiad yn lefelau môr yn arwain at stormydd mwy dwys, sy'n digwydd mwy aml ac sy'n cael gwaeth effaith ar ein cymunedau. Mae'r cyfrifoldeb am risgiau arfordirol yn ddryslyd gan fod gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Awdurdodau Lleol rôl i'w chwarae ac mae gennym fel Cyngor tua 20km o asedau arfordirol sydd yn amddiffyn ein trigolion o'r môr. Isod, amlinellir y modd y byddai'r adran yn dymuno symud ymlaen:

- Blaenoriaethu ein harfordir ar sail risg, casglu gwybodaeth ar raglenni gwaith rhan ddeiliaid eraill gan gynnwys CNC cawn yna grynhoi cynlluniau sydd yn berthnasol i risgiau llifogydd yng Ngwynedd. Bydd modd wedyn blaenoriaethu'r cymunedau sy'n weddill (lle nad oes rhaglenni gwaith mewn lle ar eu cyfer) i greu cynlluniau gweithredu penodol i'r ardaloedd yma hefyd.

- Datblygu dull o flaenoriaethu ein harfordir a gwneud hynny gan gynnwys CNC a Chanolfan Monitro Arfordirol Cymru. Bydd angen ystyried beth yw'r polisi (gan gynnwys unrhyw newidiadau) o fewn y Cynllun Rheoli Traethlin hefyd wrth wneud hyn.

- Wrth reswm, mae ymgysylltiad cymunedol yn allweddol fel rhan o'r gwaith yma, nid yn unig i drosglwyddo gwybodaeth am leoliadau ble mae cynlluniau ar waith ond hefyd i leoliadau sydd ddim yn mynd i allu elwa o gynlluniau traddodiadol i atal llifogydd neu erydiad arfordirol. Mae angen arbenigwyr mewn cyfathrebu i gydweithio gyda phobl dechnegol. Yn aml, mae'r ardaloedd yma â phwysigrwydd o ran isadeiledd sy'n cysylltu cymunedau (lonydd a rheilffyrdd), amaeth, twristiaeth yn ogystal â gwerth amgylcheddol a hanesyddol, ond nad ydynt yn ffitio modelau ariannu'r Llywodraeth oherwydd nad ydynt yn ardaloedd poblog â lot o eiddo. Bydd angen cynlluniau tra gwahanol i ddelio â'r ardaloedd hyn. Rydym yn deall fod angen i unrhyw ymgysylltiad fod yn sensitif ac wedi'i gynllunio'n llawn, gan sicrhau fod swyddogion profiadol yn ymgymryd ag o.

- Er mwyn treialu'r math o gynllun all ddatblygu mewn ardaloedd o'r math yma, mae cynllun peilot eisoes wedi'i sefydlu gennym ac wedi'i ariannu'n barod gan Lywodraeth Cymru. Y bwriad yw ymgysylltu gyda'n rhan ddeiliaid yn yr ardal yma er

mwyn ystyried rolau bob partner a’r ffordd ymlaen. Ni fydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â chymunedau ar y pwynt yma ond gobeithir datblygu hynny yn nes ymlaen. Gobeithir cychwyn ar y gwaith yma ar ôl i’r gwaith o adolygu’r Cynllun Rheoli Traethlin gael ei gwblhau ym mis Tachwedd 2021.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **23 Medi 2021** |
| **TEITL** | **Newid Hinsawdd – Asedau Atal Llifogydd Gwynedd** |
| **AWDUR** | **Rob Williams** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cyng. Catrin Wager** |
| **PWRPAS** | **Diweddariad ar:**<br>**Trefniadau monitro cyflwr asedau Gwynedd er mwyn lleihau risgiau.** |

## 1. CEFNDIR

Mae gan Uned Dŵr yr adran 310 o Asedau atal llifogydd ac erydiad arfordirol ar ei gofrestr. O'r 310, nid yw 30 ohonynt yn cael eu 'harchwilio gan yr Uned, oherwydd eu bod yn asedau preifat neu ddim yn asedau gwarchod rhag llifogydd/erydiad arfordirol. O ganlyniad dim ond 280 o asedau sydd yn disgyn o dan gyfrifoldeb yr adran. Mae'r rhaglen archwilio yn rhannu i 225 o asedau arfordirol a 55 asedau draenio tir.

## 2. DIWEDDARIAD

Mae'r gwasanaeth yn cynnal archwiliad cyfnodol o'n hasedau risg llifogydd ac arfordirol. Mae amlder o bryd rydym yn archwilio asedau yn amrywio o bob tri mis i bob dwy flynedd. Mae'r amlder yn seiliedig ar risg, lleoliad a lefel sy'n berthnasol yn erbyn lefel y môr.

Braf cael adrodd ar gyflwr ein hasedau. Mi fydd y wybodaeth yma yn cael ei gydnabod wrth lunio Strategaeth Llifogydd Lleol sydd i gael ei gwblhau erbyn Hydref 2022, gan adnabod bod newid hinsawdd yn mynd i roi fwy o straen ar gyflwr ein hasedau yn y dyfodol.

### 2.1 Asedau Arfordirol

Cyfanswm o asedau Arfordirol yw 225, sydd yn amddiffyn oddeutu 21km o arfordir Gwynedd gan gynnwys y cymunedau isod:

| | | |
|---|---|---|
| Aberdyfi | Pwllheli | Trefor |
| Tywyn | Abersoch | Caernarfon |
| Abermaw | Aberdaron | Felinheli |
| Porthmadog | Morfa Nefyn | Bangor |
| | Nefyn | |

Mae'r 225 ased yn cael eu dadansoddi isod:

| Math o Ased | Nifer | Canran o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| Strwythur y Traeth – Morglawdd | 9 | 4 |
| Strwythur y Traeth - Groen | 63 | 28 |
| Amddiffyn – Clogwyn | 48 | 21.3 |
| Amddiffyn – Twyn | 5 | 2.2 |
| Amddiffyn – Giât Llifogydd | 4 | 1.8 |
| Amddiffyn - Tir Uchel | 6 | 2.7 |
| Amddiffyn – Promenâd | 14 | 6.2 |
| Amddiffyn – Cei | 12 | 5.3 |

| | | |
|---|---|---|
| Amddiffyn – Wal | 25 | 11.1 |
| Strwythur - Arllwysiad | 10 | 4.4 |
| Strwythur – “Gorlifan / Llithrfa” | 29 | 13 |
| **Cyfanswm** | **225** | **100%** |

O’r uchod mae:

- 167 (74%) o asedau wedi eu harchwilio eleni.
- 29 o asedau ar ôl i’w archwilio yn ystod 2021/2022 (ac wedi eu rhaglennu i’w cwblhau cyn diwedd mis Medi 2021. (Mae'r asedau hyn yn rhan o dri brif amddiffynfeydd yn Nefyn, Trefor a Felinheli.)
- 29 o asedau eraill wedi eu clustnodi fel asedau na fydd angen eu harchwilio tan 2022/2023.

.

Mae cyflwr yr holl asedau wedi ei gofnodi isod (1 – cyflwr da iawn i 5 - cyflwr gwael iawn):

| **Cyflwr** | **Nifer o asedau** | **Canran o’r cyfanswm** | |
|---|---|---|---|
| 5 – Gwael iawn | 3 | 1.3% | 74.2% wedi eu cwblhau |
| 4 – Gwael | 20 | 8.9% | |
| 3 – Gweddol | 102 | 45.3% | |
| 2 – Da | 38 | 16.9% | |
| 1 – Da iawn | 4 | 1.8% | |
| Angen eu harchwilio | 29 | 12.9% | 12.9% |
| Rhaglen i’w archwilio 2022/2023 | 29 | 12.9% | 12.9% |
| **Cyfanswm** | **225** | **100%** | |

Dwi falch o adrodd nad oes angen gwaith brys ar ein hasedau ac o’r 3 ased sydd wedi cael ei raddio'r 5 (Gwael Iawn), maent wedi eu cynnwys yn rhaglen waith yr adran (Wal Viaduct Garden, Abermaw a 2 x groen yng Nghricieth). O’r 20 ased sydd wedi sgorio 4 - Gwael, mae:

- 45% ohonynt yn barod yn cael eu hystyried yn y rhaglen waith/astudiaethau cyfredol
- mae'r 55% sy'n weddill i'w hystyried fel rhan o'n rhaglen cynnal a chadw mewnol a ariennir gan YGC dros gyfnod yr Hydref / neu bydd amlder yr archwiliad yn cael ei gynyddu fel rhan o waith monitro.

## 2.2 Asedau Draenio Tir

Cyfanswm asedau Draenio tir y Cyngor yw 55. Mae’r asedau yma yn gwarchod pobol ac eiddo o berygl/difrod lifogydd yn y cymunedau canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdyfi | Abererch | Bethel | Bethesda |
| Abermaw | Abersoch | Brynrefail | Rhiwlas |
| Blaenau Ffestiniog | Llanaelhaearn | Llanrug | Tal-y-Bont |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cricieth | Trefor | Deiniolen | |
| Tremadog | | Llanberis | |

Mae’r 55 ased yn cael eu dadansoddiad isod:

| **Math o Ased** | **Nifer** | **Canran o’r Cyfanswm** |
|---|---|---|
| Sianel – Cwlfert Syml | 3 | 5.6% |
| Sianel – Cwlfert Cymhleth | 2 | 3.6% |
| Amddiffyn – Tir Uchel | 2 | 3.6% |
| Amddiffyn - Wal | 1 | 1.8% |
| Strwythur - Giât Rheoli | 1 | 1.8% |
| Strwythur – Arllwysiad | 2 | 3.6% |
| Strwythur - Sgrin | 44 | 80% |
| **Cyfanswm** | **55** | **100%** |

Mae 53 o’r asedau wedi eu harchwilio yn 2021/2022, a bydd y 2 sydd yn weddill yn cael ei archwilio yn Medi 2021.

O’r 53 sydd wedi eu hasesu mae eu cyflwr fel sydd wedi cal ei nodi isod (1 - cyflwr da iawn i 5 cyflwr gwael iawn):

<table>
<tr><th>Cyflwr</th><th>Nifer</th><th>Canran o’r cyfanswm</th><th></th></tr>
<tr><td>5 – Gwael iawn</td><td>1</td><td>1.8%</td><td rowspan="5">96.4% wedi ei gwblhau</td></tr>
<tr><td>4 – Gwael</td><td>1</td><td>1.8%</td></tr>
<tr><td>3 – Gweddol</td><td>18</td><td>32.7%</td></tr>
<tr><td>2 – Da</td><td>32</td><td>58.3%</td></tr>
<tr><td>1 – Da iawn</td><td>1</td><td>1.8%</td></tr>
<tr><td>Angen eu harchwilio</td><td>2</td><td>3.6%</td><td>3.6%</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm</td><td>55</td><td>100%</td><td></td></tr>
</table>

Dwi falch o adrodd nad  oes angen gwaith brys ar ein hasedau ac o’r  2 ased sydd wedi cael ei raddio'r 5 (Gwael Iawn) a 4 (Gwael), maent wedi eu cynnwys yn rhaglen cynnal a chadw'r adran, a fydd yn cael ei weithredu dros y misoedd nesaf.